**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus Agored Nos Fawrth Medi 9fed 2014 am 7 o'r gloch yng Nghanolfan Bro Cernyw gyda 'Afon Goch – Cartrefi Therapiwtig'.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Dilwyn O Roberts a bwysleisiodd ar y dechrau nad oedd yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac nad oedd Cyngor Cymuned Llangernyw yn rhoi barn ar y mater dan sylw – dim ond yn rhoi cyfle i gyflwyno gwybodaeth i'r gymuned. Daeth oddeutu 50 o bobl i'r cyfarfod ac roedd cyfieithydd yn bresennol.

Cafwyd cyflwyniad ar sgrîn fawr gan dair aelod oedd yn gysylltiedig â'r cwmni. Cwmni preifat bychan yw Afon Goch sydd ar hyn o bryd yn rhedeg dau gartref therapiwtig yng Ngwynedd a Môn. Eu dymuniad yw rhentu Tyn y Caeau, Llangernyw fel cartref therapiwtig newydd. Maent yn gofalu am blant y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol amdanynt a'r mwyafrif yn lleol. Mae'r plant rhwng 10 ac17 mlwydd oed ac wedi dioddef profiadau bywyd niweidiol. Grwpiau bach yw'r cartrefi gyda lefelau uchel o oruchwyliaeth staff ac mae'r plant i gyd yn cael eu hyfforddi gan athrawon o fewn y cartref. Mae'r cwmni yn awyddus i gychwyn trydydd cartref yn ardal wledig a hardd Llanrwst gyda mwyafrif o ddau blentyn yn aros yno. Ni fydd y plant yn mynychu ysgol gynradd leol a byddant, yn fwy na thebyg, yn symud yn ôl i ardal eu magwraeth wedi cyfnod yn y cartref. Ni fyddai plant anabl na rhai gydag afiechyd meddwl yn mynychu. Byddai'r plant yn cael mynychu sesiynau awyr agored gyda phlant o'r cartrefi eraill dan ofal y cwmni. Byddai'r les ar y tŷ am 6 blynedd.

Wedi'r cyflwyniad rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd ofyn cwestiynau a mynegwyd rhai pryderon megis:

- Pa fath o yswiriant fyddai gan y cartref
- Oedd ganddynt 'Ddatganiad Pwrpas'
- Fydd y plant wedi eu cloi i mewn – atebwyd y byddai lefel uchel iawn o oruchwyliaeth staff a bod gan pob plentyn ddau weithiwr allweddol
- Bydd angen newidiadau i'r adeilad – dihangfa dân a.y.b.
- Be mae'r cwmni yn wybod am Langernyw- y tirwedd, y gymdeithas, llwybrau cyhoeddus
- Cathod sy'n byw ar fferm Tyn y Caeau
- A fydd posib i blentyn ychwanegol gyrraedd y cartref mewn achlysuron o argyfwng – atebwyd mai dim ond mwyafrif o ddau fyddai yn y cartref drwy'r amser.
- Ydy'r plant wedi lladd neu ymosod yn rhywiol – atebwyd 'nac ydynt'.

  Mynegodd perchennog Tyn y Caeau, Ms Antoinette Sandbach ei diolch i Gyngor Cymuned Llangernyw am drefnu'r cyfarfod a'i bod yn awyddus iawn i roi cymal yn y cytundeb gyda'r cartref sy'n nodi os bydd unrhyw niwed yn digwydd i gymuned Llangernyw, y bydd hithau yn torri'r cytundeb gyda'r cwmni.

  Mynegodd un o drigolion Llangernyw iddo ymweld â phentref Deiniolen, lle mae cartref Afon Goch ar hyn o bryd, a deall bod y trigolion yno yn hapus gyda'r cartref a rhai hyd yn oed ddim yn ymwybodol bod cartref gan Afon Goch yn y pentref o gwbl.

Diolchwyd i'r cwmni am fynychu'r cyfarfod ac i'r cyhoedd am eu presenoldeb. Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm.